Adnoddau i gefnogi dysgu am Gristnogaeth

Lift The LID

Adnoddau i bob athro Ysbrydoliaeth i bob disgybl

# Llawlyfr yr Athro



# Y Nadolig

*Cwis Y Nadolig*

*Hetiau Meddwl Cwestiynau Trafod*




*Set y Geni*

*Pecyn Gweithgaredd Dilyn y Seren*

*Cardiau Pobl ac Addewidion*

*Cardiau Darganfod Stori'r Geni*


Bocs Gweithgaredd yr Adfent
Gêm Fwrdd Taith i'r Nadolig
Drama Chwarae Rôl Stori'r Geni
Llyfr Stori'r Nadolig
Posteri Nadolig
Anrhegion y Gwŷr Doeth
Stori'r Nadolig
Hanesion o'r Beibl am ddigwyddiadau'r Nadolig
Anrhegion y Gwŷr
THUS
MYRRH

CYNNWYS...

## Amcanion Dysgu

**Mae bocs 'Codi'r Caead ar Y Nadolig' yn edrych ar hanesion y Beibl am y Nadolig a phwysigrwydd yr Ŵyl hon i Gristnogion heddiw. Mae'r dewis eang o adnoddau ar gyfer ystod o oedrannau yn yr ysgolion cynradd. Mae'r adnoddau yn y bocs hwn yn rhoi cyfle i blant gwrdd â'r amcanion dysgu canlynol:**

- Nodi fod y Nadolig yn Ŵyl sy'n dathlu geni Iesu a bod yr Adfent yn amser i Gristnogion baratoi ar gyfer dyfodiad Iesu.
- Nodi fod Stori'r Nadolig i'w chael yn y Beibl a bod yr Efengylau gwahanol yn cynnig manylion gwahanol.
- Galw i gof ddigwyddiadau'r Nadolig cyntaf.
- Esbonio sut mae digwyddiadau'r Nadolig cyntaf yn siapio sut mae'r Ŵyl yn cael ei dathlu heddiw.
- Dechrau deall sut mae'r Nadolig cyntaf yn ffitio i mewn i stori ehangach y Beibl a'r byd.
- Deall bod Cristnogion yn credu mai 'Duw wedi dod i'r ddaear' yw Iesu, a gelwir hyn yn ymgnawdoliad.
- Disgrifio beth mae Cristnogion yn ei gredu am pwy oedd Iesu a sut mae hynny'n effeithio ar y ffordd maen nhw'n dathlu'r Nadolig a byw eu bywydau.

## Bocs Adfent





Mae'r bocs hwn yn cynnwys ystod o syniadau gweithgaredd i ymchwilio i a deall tymor Cristnogol yr Adfent.

Mae'r llyfr 'Archwilio'r Adfent' yn cynnwys gwybodaeth gefndirol ac awgrymiadau ar weithgareddau ar gyfer testun yr Adfent. Edrychir ar themâu fel gobaith, heddwch, llawenydd, cariad a goleuni, a myfyrio arnynt drwy gwestiynau trafod a gweithgareddau y gellir eu dewis a'u haddasu ar gyfer oedran a galluoedd y plant. Mae'r hyblygrwydd hwn yn galluogi edrych ar y testun ar lefelau a manylder gwahanol.

Mae'r 'Jig-sô Torch Adfent' yn gallu cael ei ddefnyddio ar wahân yn y dosbarth fel canolbwynt i drafodaeth neu weithgareddau grŵp, neu fel torch gyfan ar gyfer arddangosfa neu wasanaethau.

Dylid cynnau'r canhwyllau dan oruchwyliaeth oedolyn yn unig ac ar ôl dilyn asesiadau iechyd a diogelwch perthnasol.

## Stori'r Nadolig – set o 15 llyfr




Mae'r llyfr hwn yn dweud sut mae Efengyl Mathew, Luc a Ioan yn cofnodi stori'r Nadolig. Mae yna eirfa wrth ymyl y testun i helpu'r plant i ddeall y stori. Mae gwybodaeth ar sut mae Stori'r Nadolig yn ffitio i mewn i stori fawr y Beibl yn cael ei gynnwys hefyd i helpu deall cyd-destun y digwyddiadau, ddwy fil o flynyddoedd yn ôl.

Gan fod 15 copi o'r llyfr ar gael, mae'n adnodd delfrydol ar gyfer gwaith grŵp neu ddosbarth cyfan.

## Pobl ac Addewidion – cardiau trafod




Gellir defnyddio y set hwn o 16 cerdyn trafod ochr yn ochr â llyfrau 'Stori'r Nadolig' i roi'r cyfle i blant ddarganfod mwy am y bobl ac am ddigwyddiadau'r Nadolig cyntaf. Mae pob cerdyn yn cynnwys dyfyniad o'r Beibl a chwestiynau'n gofyn i'r plant ystyried beth fyddai'r bobl oedd yn rhan o'r stori yn ei feddwl neu'i deimlo. Gall y plant hefyd fyfyrio ar beth ellir ei ddysgu o ddigwyddiadau'r hanes.

## Set Stori’r Geni



Mae set Stori’r Geni yn ran hanfodol o’r bocs adnoddau, Gall oedolyn ei ddefnyddio i ddechrau i adrodd stori’r Nadolig cyntaf, neu gall y plant ei ddefnyddio i’w helpu i ail-ddweud stori’r Nadolig eu hunain.

Mae adnoddau ychwanegol wedi’i cynnwys gyda set Stori’r Geni. Mae yna gylch allweddi o gardiau yn esbonio pwy yw’r cymeriadau, set o gardiau dilyniant a phum copi o gofnod syml sy’n ailadrodd stori’r Nadolig. Mae ailadrodd y stori hefyd ar gael fel gweithgaredd rhyngweithiol i’w lawrlwytho o www.liftthelid.org.uk.

Mae poster stribed comic, sy’n defnyddio ffigyrau o set Stori’r Geni, ar gael yn y pecyn poster.

## Drama chwarae rôl Stori’r Geni



Mae’r set chwarae rôl hwn yn caniatáu i’r plant ddefnyddio eu dychymyg i ail greu Stori’r Geni. Mae’n cynnwys pum sgarff lliwgar a chwe chopi o sgript syml – un ar gyfer pob cymeriad ag un i’r storïwr. Mae’r sgript yn cynnwys lluniau o’r ffyrdd gwahanol o ddefnyddio’r sgarffiau gan y gwahanol gymeriadau. Gall plant ieuengach gyflwyno’r stori’n fyrfyfyr a gall y plant hŷn defnyddio’r sgriptiau i ymarfer a chyflwyno’r ddrama i eraill. (Gall lliwiau a phatrymau’r sgarffiau amrywio.)

## Cardiau Darganfod Stori’r Nadolig




Mae’r set hwn o gardiau yn ffocysu ar saith o bobl allweddol o’r Nadolig cyntaf. Mae’r cardiau mawr yn cynnwys gwybodaeth gefndirol sy’n helpu i osod digwyddiadau’r Nadolig cyntaf yn eu cyd-destun hanesyddol a Beiblaidd. Gall athro ddefnyddio’r rhain i’w helpu i arwain trafodaeth, neu gellir eu defnyddio gan blant hŷn mewn parau neu grwpiau trafod.

Mae’r cardiau llai yn cynnwys rhai ffeithiau am un o’r bobl allweddol a dau gwestiwn i’w ystyried. Mae’r cardiau hyn yn ddelfrydol ar gyfer plant iau sydd eisoes yn gwybod Stori’r Geni, i’w defnyddio mewn parau i feddwl yn fwy gofalus am y bobl yn y stori. Mae yna ddau set o’r saith cerdyn bach.

## Anrhegion y Gwŷr Doeth



Mae’r gist bren fach yn cynnwys samplau o anrhegion y gwŷr doeth. Dylid annog y plant i arogli y thus a’r myrr! (Rhybudd: er mai cymysgedd o jeli petroliwm gydag ychydig o ddafnau o olew persawrus, dylid dweud wrth y plant am beidio rhoi eu bysedd ynddo!)

Mae’r set o chwe cerdyn cysylltiol yn rhoi gwybodaeth am y gwŷr doeth a’r tri anrheg, yn ogystal â chyfeiriadau Beiblaidd a chwestiynau trafod.

Gellir defnyddio’r anrhegion hyn law yn llaw â phecyn gweithgaredd, ‘Dilyn y Seren’ fel rhan o weithgareddau cylch.

Gellir lawrlwytho cyflwyniad rhyngweithiol o www.liftthelid.org.uk fel ychwanegiad at ddysgu am y gwŷr doeth a’u hanrhegion.

## *Dilyn y Seren - pecyn gweithgaredd*



Gellir defnyddio'r pecyn hwn i drefnu cylch o weithgareddau i ddysgu am daith y gwŷr doeth i ymweld â'r baban Iesu ac arwyddocâd eu anrhegion. Gellir defnyddio 'Anrhegion y Gwŷr Doeth' neu'r cyflwyniad rhyngweithiol fel gweithgaredd rhagarweiniol i'r dosbarth cyfan neu fel gweithgaredd grŵp dan arweiniad oedolyn.

Mae'r gêm fwrdd 'Dilyn y Seren' yn syml a llawn hwyl ac yn helpu i atgyfnerthu dysgu a deall hanes y gwŷr doeth a'u anrhegion. Mae un cerdyn maint A3, cerdyn cyfarwyddiadau, 18 cerdyn rhodd a 20 cerdyn seren yn gynwysedig.

Mae'r cwestiynau 'Rhoddion a Rhoi' mewn dwy restr o gyrhaeddiad a chymhlethdod. Gellir ffotocopïo'r rhain (a'u torri) i'w defnyddio mewn trafodaethau grŵp. Gallai athrawon ddewis cwestiynau ar gyfer atebion ysgrifenedig, ble mae hynny'n briodol.

Mae'r saith taflen y gellir eu ffotocopïo ar gyfer ymestyn ac asesu dealltwriaeth, yn ogystal â chefnogi dealltwriaeth o'r eirfa. Mae'r daflen farddoniaeth wedi'i darparu gyda dau fanc geiriau gwahanol a gellir gwahaniaethu rhai o'r taflenni gweithgaredd eraill drwy ofyn am ymateb drwy luniau neu ysgrifen.

## *Taith i'r Nadolig – Gêm Fwrdd*




Pwrpas y gêm hon yw helpu plant i ddeall cyd-destun y Nadolig oddi mewn i'r Beibl cyfan. Yn ystod y gêm cesglir talebau a'u gosod ar gerdyn casglu. Mae'r cerdyn casglu yn cynnwys gwybodaeth sy'n esbonio stori fawr y Beibl a beth mae Cristnogion yn ei gredu am bwysigrwydd genedigaeth Iesu.

Gellir defnyddio'r cardiau 'Darganfod...' ochr yn ochr â'r gêm i archwilio gwahanol agweddau o stori fawr y Beibl, o anffyddlondeb Adda ac Efa yng Ngardd Eden hyd at y Nadolig cyntaf, gan orffen gyda digwyddiadau'r Pasg. Mae cwestiynau trafod a gweithgareddau yn ychwanegu at ddeall arwyddocâd y geni i Gristnogion.

Gellir chwarae'r gêm hon mewn grŵp bach neu fel timau yn y dosbarth. Mae cyfarwyddiadau sut i chwarae ac awgrymiadau ar sut i drefnu'r dosbarth ar gael o fewn y bocs.

## *Hetiau Meddwl – cwestiynau trafod ac asesu*





Mae'r cwestiynau het meddwl yn seiliedig ar system Edward de Bono o'r chwe proses meddwl (gweler ffeil gwybodaeth athrawon ar y ffon gof am gefndir). Gellir eu defnyddio ar unrhyw adeg trwy gydol y pwnc i hybu trafodaeth neu asesiad.

Gellir defnyddio'r cwestiynau ar y cardiau ar gyfer gwaith unigol, trafodaeth mewn parau neu grŵp, dadleuon distaw, amser myfyrio tawel yn y dosbarth ac ati.

Mae deuddeg cerdyn yn y bocs, chwech ar gyfer Cyfnod Allweddol 1 a chwech ar gyfer Cyfnod Allweddol 2, gyda phob cerdyn yn cynnwys tri chwestiwn.

## Cwis Nadolig



Gellir defnyddio'r bocs hwn o 30 cerdyn cwis fel gweithgaredd cyn-asesiad ar ddechrau thema'r Nadolig, neu fel asesiad terfynol llawn hwyl. Gyda'r atebion wedi eu darparu ar y cerdyn gellir eu defnyddio ar gyfer cwis y gall y plant ei wneud gyda'i gilydd hefyd!

## Posteri Nadolig



Mae'r poster ar gynllun stribed comic yn rhoi darlun sydyn o stori'r Nadolig mewn ffordd ddeniadol a lliwgar. Gellir defnyddio posteri'r tri gŵr doeth ochr yn ochr â gweithgaredd anrhegion y gwŷr doeth neu ar gyfer llunio arddangosfa ddosbarth. Gellir defnyddio pob poster ar gyfer trafodaeth grŵp neu ddosbarth.

## Adnoddau i'w Lawrlwytho

Gellir lawrlwytho adnoddau dysgu ychwanegol o www.liftthelid.org.uk gan ddefnyddio'r manylion mewngofnodi a'r cod sydd wedi'i ddarparu.

Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys:

- Ail-adrodd stori'r Nadolig yn rhyngweithiol
- Cyflwyniad rhyngweithiol i gefnogi hanes y gwŷr doeth a'u hanrhegion
- Gweithgaredd rhyngweithiol yn archwilio arwyddocâd y Nadolig i Gristnogion o draddodiadau gwahanol ac i roi y cyfle i blant fyfyrio ar ystyr y Nadolig iddyn nhw.
- Gweithgaredd rhyngweithiol yn helpu plant i ddeall cefndir rhai carolau.
- Taflenni gwaith 'Dilyn y Seren'
- Taflenni gwaith torri a gludo Stori'r Geni
- Taflenni Lliwio
- Gwybodaeth Athro gan gynnwys llyfryn athro cyfan, cyngor ar gynllunio a dilyniant, awgrymiadau ar sut i ddefnyddio adnoddau, crynodeb o Hetiau Meddwl Edward de Bono a Tacsonomi Bloom.

## Noder

Gall y lliwiau a'r union arteffactau fod yn wahanol i'r rhai a ddangosir mewn ffotograffau yn y llyfryn hwn. Adnoddau addysgol yw'r rhain, nid teganau, a dylid eu defnyddio dan oruchwyliaeth oedolyn yn unig. Mae rhai adnoddau'n cynnwys rhannau bach ac mae angen trin eraill gyda gofal.

Lift The LID

01653 228060

sales@liftthelid.org.uk
office@liftthelid.org.uk

Lift the Lid, 7a Saville Street,
Malton, North Yorkshire, YO17 7LL

www.liftthelid.org.uk